

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd 3 Rhagfyr 2012 am 7.30yh yn Hen Ysgol y Ferwig

Presennol

Cyng. Dilwyn Jenkins (Cadeirydd)	Cyng. Llinos Price
Cyng. Islwyn Iago	Cyng. Lyn Jones
Cyng. Huw Jones	Cyng. Eurig Lloyd
Cyng. Ann Stokoe	Cyng. Des Davies
Cyng. Haydn Lewis (Aelod lleol o'r Cyngor Sir) (cyrraedd 8.45)	Mrs Hildreth Owen (Clerc)

- 1. Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Dilwyn Jenkins, bawb i gyfarfod mis Rhagfyr. Cydymdeimlodd â'r Cyng. Islwyn Iago yn ei brofedigaeth o golli ei frawd, Brinley. Llongyfarchodd y Cyng. Morris Davies ar ennill medal am wasanaeth hir ar ôl 30 mlynedd gyda Gwylwyr y Glannau. Hefyd llongyfarchodd y Clerc, Hildreth Owen, ar ddyfod yn famgu i Iola Mair allan yn Seland Newydd. Aethpwyd ymlaen i drafod yr agenda.
- 2. Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cynghorwyr Auriol Williams a Morris Davies.
- 3. Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol.**
Cywiriad: Tud 692 – ychwanegu enw'r Cyng. Eurig Lloyd at enwau'r rhai oedd yn bresennol.
Gyda'r cywiriad uchod, cynigiwyd gan y Cyng. Llinos Price ac eiliwyd gan y Cyng. Eurig Lloyd bod cofnodion mis Tachwedd yn gywir.
- 4. Datgelu buddiannau personol:** Dim
- 5. Materion yn codi:**
Sgipiau ar draeth Patch: Ymateb oddi wrth Sianel Glir Afon Teifi yn egluro sefyllfa'r sgip ar draeth Patch (gweler rhif 9[123]). Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Mr Jim Marsden i ofyn a fyddai'n bosib iddo fynychu cyfarfod mis Ionawr 2013 er mwyn egluro rhai pwyntiau i'r aelodau ynglŷn â sgipiau ar draeth Patch.
Marchogaeth ceffylau ar hyd y palmentydd ym mhentref Penyparc: Cysylltodd y Clerc gyda PC Alun Jones ynglŷn â'r broblem hon. Dywedodd ei bod yn drosedd i farchogaeth ceffylau ar hyd palmentydd. Dywedodd y byddai'n cadw llygad ar y sefyllfa, ac os derbynnir cwyn pellach, cysyllter yn uniongyrchol ag ef.
- 6. Ceisiadau am Gymorth Ariannol**
I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.
Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Penyparc £100.00
Ysgol Feithrin Penyparc £100.00

(Enwau wedi eu hitaleiddio = cyfrifon wedi eu danfon i mewn gyda'r cais)

7. Cynllunio.

Rhif y Cais	Cyfeiriad a Bwriad	Sylwadau
A120597	Min-y-môr, Gwbert "Erection of replacement dwelling and garage" (cynlluniau diwygiedig)	Nid oedd sylwadau pellach gyda'r Cyngor.

Cyfarfod Adran Cynllunio'r Cyngor Sir: Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 12 Rhagfyr 2012

Ceisiadau wedi eu caniatáu / gwrthod:

Rhif y Cais	Cyfeiriad a Bwriad	Penderfyniad y Cyngor Sir
A120685	Gwbert Hotel, Min y Don, Gwbert "Change of use from residential to hotel, & extension & alterations to the car park"	Wedi ei ganiatáu.

Cyfarfod Safle. Ni chynhelir cyfarfod safle yn ystod y mis.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

8. Materion Ariannol.

Biliau wedi eu talu:

Dŵr Cymru (Dŵr Ystafelloedd Newid Ystafell Berkley) <i>Siec rhif 101252 wedi ei chanslo.</i>	101251	£78.40
Cymdeithas Clercod Lleol (Tâl aelodaeth)	101253	£100.00
Y Cyng. Dilwyn Jenkins (ail randal Lwfans y Cadeirydd)	101254	£150.00
Canolfan Ieuenctid Penyparc (Tâl am hurio Ystafell Berkley 5 gwaith)	101255	£75.00
Clwb Ffermwyr Ifanc Penyparc (Tâl am lanhau'r Ystafelloedd Newid o 5/9/12 -5/12/12)	101256	£216.00
D.E . Owen & Sons (Torri porfa'r cae pêl-droed am 2012)	101257	£1,484.90

Cynigiwyd gan y Cyng. Llinos Price ac eiliwyd gan y Cyng. Des Davies bod y biliau uchod yn cael eu talu.

Derbyniadau: Dim

Materion ariannol eraill: Cyllideb 2013-14.

- (i) Adolygiad cyflog y Clerc am y flwyddyn 2013-14: Gadawodd y clerc yr ystafell er mwyn i'r Cynghorwyr drafod ei hadolygiad. **Penderfynwyd codi cyflog y Clerc gyda 2% o fis Ebrill 2013.**
Cynigiwyd hyn gan y Cyng. Ann Stokoe ac eiliwyd gan y Cyng. Llinos Price.
- (ii) Penderfynu'r Praesept am 2013-14. **Am fod angen cael prisoedd am hysbysfwrdd newydd a newid rhai o ffigurau'r gyllideb, penderfynnir y praesept yng nghyfarfod mis Ionawr 2013.**
Y Clerc i gysylltu â Mr Dyfed Symons ynglŷn â derbyn pris a hefyd chwilio i mewn i brisoedd rhai newydd.

9. Gohebiaeth:

123	Sianel Glir Afon Teifi Cyf.	Ymateb i lythyr y Cyngor yn ymwneud â sgip ar draeth Patch ac yn gofyn i'r Cyngor dalu'r gost o wacáu dwy sgip y flwyddyn.	Gweler eitem 5
124	Cyngor Sir Ceredigion (Adran y Priffyrdd)	Cadarnhad o dderbyn llythyr ynglŷn â'r ffaith bod y ffos gerllaw Engar, Gwbert yn beryg i yrwyr ac i gerddwyr oherwydd ei ddyfnder.	Nodwyd
125	D. E. Owen & Son	Pris am dorri porfa'r cae pêl-droed am y flwyddyn 2013	Cytunwyd yn unfrydol i dderbyn pris Mr Owen.
126	Chris Cooper	Pris am glirio gwahaddod o'r cae pêl-droed unwaith y flwyddyn.	Cytunwyd derbyn y cynnig yma. Y Clerc i gysylltu â Mr Cooper a hysbysu'r Clwb Pêl-droed bod y gwaith yn mynd ymlaen.
127	Cyngor Sir Ceredigion (Adran y Priffyrdd)	Llythyr yn datgan na fydd y Cyngor Sir mewn sefyllfa i drefnu bod sefydliad allanol yn dod i archwilio meysydd chwarae'r sir.	Y Clerc i gysylltu â Digley Associates Ltd yn gofyn am bris i archwilio'r chwaraefan yn Ferwig.
128	Cyngor Sir Ceredigion (Adran y Priffyrdd)	Cadarnhad o dderbyn llythyr ynglŷn â Chyngor Cymuned y Ferwig yn gwrthod derbyn y brydles ar y Cae Gwyrdd.	Nodwyd
129	Cyngor Sir Ceredigion (Adran Gyllid)	Trefniadau'r Praesept 2013-14.	I'w benderfynu yng nghyfarfod mis Ionawr, 2013.
130	Cynulliad Cenedlaethol Cymru	Ymgynghoriad ar y Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru)	Y Clerc i wneud copi i'r Cadeirydd a nodi hwn ar agenda mis Ionawr, 2013.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

10. Materion Eraill / Other Matters.

Digwyddiad Nadolig i henoed y Gymuned: Dywedodd y Cadeirydd, Y Cyng. Dilwyn Jenkins ei fod wedi derbyn pris o £10 y pen oddi wrth Clwb Golff Aberteifi am ginio Nadolig yn cynnwys cinio, pwddin a the neu goffi.

Y Clerc i hysbysu'r digwyddiad yn yr hysbysfyddau ac yn adroddiad y wasg yn y Tivyside. Dywedodd y Cyng. Des Davies y byddai yn gosod hysbys yn y "Gambo" hefyd.

Cyfarfod gyda warden cŵn Ceredigion: Cyfarfu y Cadeirydd a'r Clerc gyda Mr Nigel Jones, y warden cŵn dros Geredigion, yn y cae pêl-droed, er mwyn darganfod beth yn gywir yw'r rheolai ynglŷn â chaniatau cŵn ar y cae. Ar hyn o bryd mae hwn yn anodd iawn i'w rheoli. Cafwyd samplau o wahanol arwyddion sydd ar gael. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd gadael pethau fel y maent ar hyn o bryd. Dywedodd Mr Nigel Jones bod Cyngor Sir Ceredigion yn y broses o newid y rheolau ynglŷn â chŵn a bydd rheolau statudol yn ein harwain i weithredu'n gywir.

Y Cyng. Islwyn Iago: Dywedodd y Cyng. Islwyn Iago ei fod wedi ymddiswyddo o Bwyllgor Lles Penyparc.

Penderfynwyd ethol cynghorydd arall yn y cyfarfod blynyddol mis Mai nesaf. Os, yn y cyfamser y bydd angen cynrychiolaeth o'r Cyngor ar y pwyllgor, gwirfoddolodd y Cadeirydd, y Cyng. Dilwyn Jenkins wasanaethu arno.

Mwd ar y ffordd gerllaw Gwynfro, Ferwig: Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Cyngor Sir yn gofyn iddynt glirio hwn.

Dŵr ar y ffordd o Waungelod i Tŷ'r-ffin, Patch. Yn dilyn cwyn oddi wrth aelod o'r cyhoedd, gofynnwyd i'r Clerc ofyn i'r Cyngor Sir edrych ar y broblem hon.

Ceubwll ar y ffordd rhwng Nantmawr a Nantbach, Mwnt: Yn dilyn cwyn oddi wrth aelod o'r cyhoedd, gofynnwyd i'r clerch hysbysu'r Cyngor Sir ynglŷn â thrin y ceubwll hwn.

Llwybr Troed ger Maes Carafanau Patch: Yn dilyn cwynion ynglŷn â'r ffaith bod y llwybr hwn ar gau, gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r rheolwr i ofyn am fanylion o'r gwaith sydd yn cael ei wneud yno.

11. Dyddiad Cyfarfod nesaf y Cyngor: 7 Ionawr, 2013 yn Ystafell Berkley, Penyparc, am 7.30yh.

Cyfarfodydd y Cyngor am 2013

4 Chwefror (F)	4 Mawrth (YB)	8 Ebrill (F)	13 Mai (YB) (CB)
3 Mehefin (F)	8 Gorffennaf (YB)	2 Medi (F)	7 Hydref (YB)
	4 Tachwedd (F)	2 Rhagfyr (YB)	

Dynoda: F = Hen Ysgol y Ferwig.YU YB = Ystafell Berkley CB = Cyfarfod Blynyddol

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Minutes of the Ordinary Meeting held on 3 December 2012 at 7.30pm at Hen Ysgol y Ferwig

Present:

Cllr Dilwyn Jenkins (Chairman)	Cllr Llinos Price
Cllr Islwyn Iago	Cllr Lyn Jones
Cllr Huw Jones	Cllr Eurig Lloyd
Cllr Ann Stokoe	Cllr Des Davies
Cllr Haydn Lewis (Local County Council Member) (arrived 8.45)	Mrs Hildreth Owen (Clerk)

- 1. Chairperson's welcome.** The Chairman, Cllr Dilwyn Jenkins, welcomed everyone to the December meeting. He offered the condolences of the council to Cllr Islwyn Iago on the passing of his brother, Brinley. Congratulations were extended to Cllr Morris Davies on receiving the 30 years' service medal for his services to the Coastguards. In the same vein, congratulations were extended to the Clerk, Mrs Hildreth Owen, on becoming a grandmother to little Iola Mair in New Zealand.
- 2. Apologies for absence:** Apologies received from Cllrs Auriol Williams and Morris Davies.
- 3. Minutes of the previous meeting.**
Correction: Page 692 – Cllr Eurig Lloyd to be added to the list of councillors present.
With the above correction, it was proposed by Cllr Llinos Price and seconded by Cllr Eurig Lloyd that the minutes of the November meeting were correct.
- 4. Declaration of personal interests:** None.
- 5. Matters arising:**
Skips on Patch beach: A response from the Afon Teifi Fairways Ltd. explaining the position of the skips on the beach (see item 9[123]). **The clerk was asked to contact Mr Jim Marsden inviting him to attend the January council meeting to explain a number of queries regarding the skips to members.**
Horse riding on pavements in Penyparc: The Clerk contacted PC Alun Jones regarding this problem. He confirmed that it was an offence to ride horses on pavements. He added that he would police the problem, and if further complaints were received, he wished to be informed
- 6. Requests for financial support.**
To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.

Penyparc Scool PTA	£100.00
Ysgol Feithrin Penyparc	£100.00

(Names in italics = accounts forwarded with applications)

7. Planning:

<i>Application No.</i>	<i>Address and Purpose</i>	<i>Observations</i>
A120597	Min-y-môr, Gwbert "Erection of replacement dwelling and garage" (cynlluniau diwygiedig)	Council had no additional observations.

County Council Planning Meeting : 12 December 2012.

Applications approved or refused by the County Council:

<i>Application No.</i>	<i>Address and Purpose</i>	<i>County Council decision</i>
A120685	Gwbert Hotel, Min y Don, Gwbert "Change of use from residential to hotel, & extension & alterations to the car park"	Approved

Site meeting. No site meeting was held during the month.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

8. Financial Matters.

Bills paid:

Dŵr Cymru (Water for Ystafell Berkley changing rooms) <i>Cheque No. 101252 cancelled.</i>	101251	£78.40
Society of Local Council Clerks (Membership fee)	101253	£100.00
Cllr Dilwyn Jenkins (Chairman's allowance, 2 nd instalment)	101254	£150.00
Penyparc Youth Centre (Payment for hiring Ystafell Berkley 5 occasions)	101255	£75.00
Penyparc YFC (Payment for cleaning changing rooms, 5/9/12 -5/12/12)	101256	£216.00
D. E. Owen & Sons (Cutting the football field grass, 2012)	101257	£1,484.90

It was proposed by Cllr Llinos Price and seconded by Cllr Des Davies that the above bills are paid.

Receipts: None

Other Financial Matters:

Budget 2013-14.

- (i) The Clerk left the chamber whilst her salary for 2013-14 was discussed. **It was agreed to increase the salary by 2% from April 2013.**
The above was proposed by Cllr Ann Stokoe and seconded by Cllr Llinos Price.
- (ii) The Precept for 2013-14 was discussed. As quotations are required for new notice boards, it was agreed to discuss the item at the January meeting. The Clerk to request quotations from Mr Dyfed Symmons and to enquire elsewhere.

9. Correspondence:

123	Afon Teifi Fairways Limited	Response to the Council's letter regarding the skip on Patch beach and asking that the Council meet the cost of emptying two skips per year.	See item 5
124	Ceredigion County Council (Highways Department)	Confirmation of receipt of letter regarding the fact that the ditch alongside Engar, Gwber is a danger to drivers and walkers due to its depth.	Noted
125	D. E. Owen & Son	Quote for cutting the football pitch for 2013	It was unanimously decided to accept this quote from Mr Owen.
126	Chris Cooper	Quote for clearing the moles from the football pitch once a year.	It was decided to accept this quote. The Clerk to contact Mr Cooper and also inform Penyparc Football Club that the work is being carried out.
127	Ceredigion County Council (Highways Department)	Letter stating that the County Council is not in a position to make arrangements for playground inspections in future.	The Clerk to contact Digley Associates Ltd requesting a quote for inspecting the playarea at Ferwig.
128	Ceredigion County Council (Highways Department)	Confirmation of receipt of a letter regarding the fact that Ferwig Community Council will not be taking over the lease of Cae Gwyrdd, Penyparc	Noted
129	Ceredigion County Council (Finance Dept)	Precept arrangements for 2013-14.	To be decided at the January 2013 meeting.
130	National Assembly for Wales	Consultation on the Local Government (Democracy) (Wales) Bill	The Clerk to make a copy for the Chairman and note this on the agenda for January, 2013.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

131	Pwyllgor Neuadd a Lles y Ferwig	Notification that as from January 2013 the cost of hiring Hen Ysgol y Ferwig will be £20 per session.	Noted.
-----	---------------------------------	---	--------

10. Other Matters

Senior Citizens' Christmas party: The Chairman, Cllr Dilwyn Jenkins, stated that he had received a price of £10 per person from Cardigan Golf Club for a Christmas dinner comprising of a main course, sweet and tea or coffee.

The Clerk to advertise the party on the notice boards and in the press report in the "Tivy-Side Advertiser".

Cllr Des Davies added that he would insert an advert in "Y Gambo".

Meeting with the Ceredigion Dog Warden: The Chairman and Clerk met with Mr Nigel Jones, the Ceredigion County Council dog warden, in the football field in order to outline the correct procedures to control dogs entering the field. Presently this problem is difficult to keep under control. Samples of various signs were displayed by the warden. Following discussion, it was agreed to maintain the status quo. Mr Jones stated that the County Council is in the process of introducing dog control legislation and statutory measures will then be in place.

Cllr Islwyn Iago stated that he had resigned as a member of Pwyllgor Lles Penyparc. It was agreed to nominate a councillor to represent the council at the meeting in May. If representation will be required in the meantime, Cllr Dilwyn Jenkins volunteered to represent the council.

Mud on the highway near Gwynfro, Ferwig: The Clerk was asked to contact the County Council to clear the mud.

Water on the highway from Waungelod to Tŷ'r Ffin, Patch: Following a complaint by a member of the public, the Clerk was asked to contact the County Council to investigate.

Pothole on the highway between Nantmawr and Nantbach, Mwnt: Following a complaint by a member of the public, the Clerk was asked to contact the County Council to repair the pothole.

Footpath near Patch Caravan Park: Following reports that this footpath was closed to the public, the Clerk was asked to investigate with the owners and to obtain details of the work undertaken thereat.

11. Date of next Council Meeting: 7 January, 2013 at 7.30pm at Ystafell Berkley, Penyparc

Council Meetings for 2013

4 February (F)	4 March (YB)	8 April (F)	13 May (YB) (AGM)
3 June (F)	8 July (YB)	2 September (F)	7 October (YB)
	4 November (F)	2 December (YB)	

Denotes: F = Ferwig Old School. YB = Ystafell Berkley. AGM = Annual General Meeting